**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 26 MEDI 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon) a Deb Jones (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 14:10

**Ymddiheuriadau:** Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid) a Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon).

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

**2.1.** Briffiodd y Cadeirydd y Comisiwn ar dderbyn ymddiswyddiad Rheolwr Cymorth Busnes y Comisiwn. Nododd y Comisiwn ei bod yn ofid i'r Rheolwr Cymorth Busnes adael y sefydliad, a hoffai'r Comisiwn ddymuno'r gorau iddi yn y dyfodol.

**3. Cofnodion Cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22 Awst 2017**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Awst 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn codi**

**4.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 18 Medi 2017 gan y Prif Weithredwr ar Materion yn Codi.

**4.2.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Arolygon Etholiadol (cyfarfod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)) – Mynychodd y Prif Weithredwr a’r Dirprwy Brif Weithredwr gyfarfod AEA ym Mhort Talbot, a rhoesant gyflwynwyd ar y rhaglen Arolygon Etholiadol.
- **(Mater 2)** Staffio – Mae’r Comisiwn wedi llenwi swydd ar gyfer secondiad ar gyfer rôl Swyddog Arolygon, i ddechrau ar 1 Tachwedd 2017. Mae’r Comisiwn hefyd wedi hysbysebu ar gyfer swydd y Rheolwr Cymorth Busnes.
- **(Mater 3)** Porth Ymgynghori – Wedi i eitem 13 ar yr Agenda (arolwg Ceredigion) gael ei gytuno gan y Comisiwn, bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn dechrau profi porth CFfDLC.
- **(Mater 5)** Gwobr Iechyd Gweithleoedd Bach – Mae hyn yn cael ei baratoi gan y Swyddog Cymorth Busnes.
- **(Mater 6)** Strategaeth TG – Yn aros am ymateb LlC o hyd.
- **(Mater 8)** Cytunodd y Comisiwn y dylid ymhellach i brydles yr adeilad.
- **(Mater 9)** Arweiniad ar Arolygon Cymunedol – Paratowyd hyn gan y Dirprwy Brif Weithredwr i’w gyhoeddi yr wythnos hon, a bydd ar gael i ymgynghori arno hyd ganol mis Rhagfyr.

## 5. Diwygio Etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 29 Awst 2017 gan y Prif Weithredwr.

5.2. Fe wnaeth y Comisiwn nodi a **chytuno** ar yr ymateb drafft i’r ymgynghoriad a baratowyd gan y Prif Weithredwr.

## 6. Papur Gwyn y Gymraeg

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 29 Awst 2017 gan y Prif Weithredwr.

6.2. **Cytunodd** y Comisiwn y dylai’r Prif Weithredwr baratoi ymateb i’w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

## 7. Polisi’r Gymraeg yn y Gwaith

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 19 Medi 2017 gan y Prif Weithredwr.

7.2. **Cytunodd** y Comisiwn â’r ddogfen ac i roi’r polisi ar waith, gan bennu Medi 2020 fel y dyddiad adolygu.

8. **Polisi Cwynion y Gymraeg**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Medi 2017 gan y Prif Weithredwr.

8.2. **Cytunodd** y Comisiwn ar y ddogfen ac i roi'r polisi ar waith gyda rhai mân newidiadau.

**9. Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Medi 2017 gan y Prif Weithredwr.

9.2. **Cytunodd** y Comisiwn i fabwysiadu'r Polisi a'r Gweithdrefnau fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad, a fydd yn sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

10. **Rheoli Risg – Cofrestr Risg**

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 09 Medi 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad â'r newidiadau canlynol –

- CR2 – ychwanegu cam gweithredu lliniarol at Gam 5, ynghylch hysbysebu swydd y Rheolwr Cymorth Busnes.
- CR7 – ychwanegu cam gweithredu lliniarol: "Archwilio'r posibilrwydd ag Ethical Property a Llywodraeth Cymru i geisio prydles newydd yn uniongyrchol pan ddaw'r brydles bresennol i ben ym mis Rhagfyr 2017".

**11. Adroddiad ar y Gyllideb**

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 09 Medi 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. **Nodwyd** a **derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a nodwyd y tanwariant yn y gyllideb bresennol.

11.3. **Nododd** y Comisiwn y gellid defnyddio'r tanwariant hwn yn rhan gyntaf y strategaeth TG sydd ar ddod, os bydd Llywodraeth Cymru'n cytuno.

12. **Arolwg o Ffiniau Tua'r Môr Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe**

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Medi 2017 gan y Swyddog Arolygon.

12.2. Gofynnodd y Comisiwn i ragair gael ei ddrafftio a'i gylchredeg er mwyn cael sylwadau arno a'i ychwanegu at yr adroddiad.

12.3. Yn amodol ar newidiadau, **nodwyd** a **chymeradwywyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

13. **Arolwg Etholiadol Ceredigion**

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Medi 2017 gan y Swyddog Arolygon.

13.2. Gofynnodd y Comisiwn am nifer o newidiadau i'r rhagair.

13.3. Gofynnodd y Comisiwn i baragraff ar wahân gael ei ychwanegu at yr adroddiad sy'n amlygu'r rhestr termau yn yr adroddiad.

13.4. Gofynnodd y Comisiwn am nifer o newidiadau i baragraff 6, pennod 3 yr adroddiad, a chaiff y newidiadau eu cytuno drwy'r e-bost.

13.5. Yn amodol ar newidiadau, **nodwyd** a **chymeradwywyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

14. **Arolwg Etholiadol Gwynedd**

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Medi 2017 gan y Swyddog Arolygon.

14.2. Gofynnodd y Comisiwn am nifer o newidiadau i'r rhagair.

14.3. Gofynnodd y Comisiwn i baragraff ar wahân gael ei ychwanegu at yr adroddiad sy'n amlygu'r rhestr termau yn yr adroddiad.

14.4. Gofynnodd y Comisiwn am nifer o newidiadau i baragraff 6, pennod 3 yr adroddiad, a chaiff y newidiadau eu cytuno drwy'r e-bost.

14.5. **Cytunodd** y Comisiwn i newid enwau'r wardiau etholiadol canlynol, y cytunwyd arnynt yn wreiddiol yng nghyfarfod mis Awst:

- Arthog a Llangelynnin
- Bethel a’r Felinheli
- Brithdir, Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltud
- Cwm-y-glo
- Efailnewydd a Buan
- Morfa Nefyn a Thudweiliog
- Penisa’r-waun
- Pen-y-groes
- Tre-garth a Mynydd Llandygái
- Y Faenol
- Y Groeslon

14.6. Yn amodol ar newidiadau, **nodwyd** a **chymeradwywyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

15. **Cynnydd Arolygon**

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 19 Medi 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

15.2. **Nodwyd** a **chymeradwywyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

**16. Calendr Digwyddiadau**

**16.1.** **Nododd** y Comisiwn y calendr.

**17. Unrhyw fater arall**

**17.1.** Bydd y Rheolwr Cymorth Busnes yn edrych ar y polisïau Adnoddau Dynol, oherwydd y mae’n rhaid i’r rhain gael eu diweddaru a’u cytuno gan y Comisiwn. Gellir ystyried y rhain mewn dwy ffordd, sef trwy is-bwyllgor y gweithle neu yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

**17.2.** Bydd tabl yn dangos y polisïau yn cael ei ddrafftio a’i rannu â’r Comisiwn i’w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

**17.3.** **Nododd** y Comisiwn fod gwahoddiad i seminar ar graffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) wedi’i nodi a’i ffeilio.

**17.4.** **Nododd** y Comisiwn fod gwahoddiad i weithdy Comisiynydd y Gymraeg wedi’i nodi a’i ffeilio.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 24 Hydref 2017**